

Gwella Canlyniadau i Blant – Crynodeb o Raglen Waith Cam 3 (2018-21)

Ffrwd waith 1 – Gostwng yn ddiogel nifer y plant sydd angen gofal	Ffrwd waith 2 – Darparu a chomisiynu amrywiaeth hyblyg, fforddiadwy a digonol o leoliadau o ansawdd uchel	Ffrwd waith 3 - Helpu plant sy'n derbyn gofal i gael y daith orau bosib drwy ofal ac i fod yn oedolion
<ol style="list-style-type: none"> 1. Cefnogi a galluogi dulliau gweithredu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a fydd yn darparu gwell gweithgarwch ataliol ac ymyrraeth gynnar i deuluoedd er mwyn helpu i leihau'r angen ar i blant gael eu cymryd i ofal. 2. Cryfhau trefniadau ar gyfer cefnogi gofalwyr sy'n berthnasau, gan gynnwys trefniadau Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig. 3. Cynnal ymchwil i nodi nifer y plant sydd â rhieni ag anabledd dysgu ac nad ydynt bellach yn byw yn y cartref, a'r rhesymau am y newid yn eu statws. 4. Archwilio dulliau gweithredu a all helpu i osgoi defnyddio achosion llys, annog y defnydd o fesurau gwahanol i orchmynion gofal a hyrwyddo arferion barnwrol cyson. 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Gwella digonedd, dewis ac ansawdd lleoliadau drwy well comisiynu a gwaith rhanbarthol, i sicrhau'r lleoliadau cywir i blant sy'n derbyn gofal yn y manau cywir. 2. Gweithredu'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol. 3. Datblygu ymhellach allu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i ddiwallu'r angen am leoliadau a datblygu model cenedlaethol o gymorth mabwysiadu. 4. Datblygu dull gweithredu wedi'i gydlynu i wella opsiynau lleoli a chanlyniadau i blant a phobl ifanc mewn gofal preswyl a llety diogel. 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Edrych ar systemau a dulliau o wella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal. 2. Sicrhau bod dyletswyddau rhianta corfforaethol yn cael eu hystreyn a'u cydnabod ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus er mwyn i blant sy'n derbyn gofal gael y cymorth gorau posib. 3. Sicrhau bod amrywiaeth eang o gymorth therapiwtig ar gael ar gyfer problemau emosiynol ac ymddygiadol sydd gan blant a phobl ifanc ar ffiniau gofal a'r rhai sydd wedi cael eu mabwysiadu. 4. Archwilio'r amrywiol opsiynau llety sy'n darparu profiadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc sy'n gadael gofal.